
# "Symud Ymlaen"

## Crynodeb o
## Gynllun Gwella
## Cyngor Dinas a Sir Abertawe
## 2006-07






*Medi 2006*

CITY AND COUNTY OF SWANSEA • DINAS A SIR ABERTAWE

# Rhagair

Croeso i Grynodeb Cyngor Dinas a Sir Abertawe o Gynllun Gwella Blynyddol 2006/2007. Mae "Symud Ymlaen" yn amlinellu Amcanion a Gweithredu'r Cyngor hwn ar gyfer y dyfodol ac yn benodol am y ddwy flynedd nesaf. Nod y rhain yw cyflawni a chynnal gwelliant mewn perfformiad a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r nodau hyn, a hefyd yn darparu crynodeb o berfformiad yr awdurdod yn ystod 2005/06 ac yn canolbwyntio ar y themâu strategol a'r blaenoriaethau corfforaethol sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol yr awdurdod.

Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer 2006/07 hefyd ar gael mewn fersiwn lawn, a cheir manylion ar sut i gael copi o'r cynllun llawn yng nghefn y ddogfen hon.

Fel awdurdod lleol mae ein gwasanaethau a'n perfformiad hefyd yn destun archwiliad gan reolyddion allanol. Eleni rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ein Harchwilwyr penodedig, PricewaterhouseCoopers, yn nodi bod "y Cyngor wedi parhau i ymateb i'r heriau mae'n eu hwynebu ac yn gwneud cynnydd ar ei Daith at Berfformiad Gorau" *(RMAL, Ionawr 2006).*

Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Nid ydym yn hunanfodlon ynghylch cyflawniadau'r Cyngor ac rydym yn parhau i nodi meysydd pellach i'w datblygu. I gynorthwyo yn hyn o beth rydym wedi adolygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor i sicrhau ffocws ar y materion allweddol sy'n wynebu'r Cyngor a'r gymuned gyfan.

**Mae'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn gweithredu ar draws pum thema strategol:**

- **Cymuned**
- **Yr Amgylchedd**
- **Iechyd a Lles**
- **Ffyniant**
- **Dysgu**

***Gallwch ddod o hyd i eglurhad a manylion pellach ar y rhain ym Mhennod 2.***

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i wella ein perfformiad ar draws y themâu strategol hyn o flwyddyn i flwyddyn. Mae gan y cynigion gwella a'r datblygiadau allweddol megis y Ganolfan Hamdden, y Ganolfan Ddinesig, yr isadeiledd cludiant a fframwaith canol y ddinas oll y potensial i ychwanegu gwerth i Abertawe a'n cymryd gam yn nes at ein gweledigaeth o fod yn Ddinas Ewropeaidd nodedig erbyn 2020.

Bydd Pennod Un y crynodeb hwn yn egluro'n fyr sut mae'r Cyngor wedi perfformio yn ystod 2005/06, gan amlygu bod 69% o'n mesurau perfformiad naill ai'n dangos gwelliant, neu eisoes yn perfformio ar eu gorau, ond yr un mor bwysig, mae Pennod 3 yn dangos bod y Cyngor yn bwriadu gwella perfformiad yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae ein gwefan, **www.swansea.gov.uk** yn darparu gwybodaeth bellach ar feysydd diddordeb penodol.

**ARWEINYDD**

**PRIF WEITHREDWR GWEITHREDOL**

## *Pennod 1*

# *Crynodeb o Berfformiad 2005/2006*

Mae cyflawni gwelliant parhaus yn nod allweddol i'r Cyngor hwn. O ran 2005/06, gwelir o ddadansoddi ein perfformiad, yn gyffredinol, bod **69% o fesurau perfformiad yn dangos gwelliant** neu maent yn perfformio ar eu gorau eisoes.

**Rydym wedi gweld meysydd gwelliant ar draws yr holl brif feysydd gwasanaeth megis:-**

- Gwnaeth **casgliadau Treth y Cyngor** guro'r targed
- Parhaodd yr amser a gymerir i dalu **hawliadau Budd-daliadau Tai** newydd ar berfformiad gorau
- O ganlyniad i ymdrechion cydunol i **leihau lefelau salwch** ac arbed costau, mae nifer y dyddiau gwaith/shifftiau a gollir oherwydd salwch fesul gweithiwr cyfwerth amser llawn wedi gostwng ac mae bellach wedi cyrraedd perfformiad gorau o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru
- Mae **presenoldeb** cyffredinol **mewn ysgolion cynradd ac uwchradd** wedi cyrraedd ei gofnod uchaf
- Mae **canlyniadau Cyfnod Allweddol 3** *(14 oed)* **a TGAU** yn dangos bod Abertawe'n gwella
- Gostyngodd nifer y **disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu yn y gweithle yn 16 oed** heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.
- Curwyd y targed a chyflawni'r chwartel uchaf o ran canran y **penderfyniadau ar ddigartrefedd** a wnaethpwyd o fewn y 33 diwrnod gofynnol.
- Gwnaeth canran yr **atgyweiriadau tai** brys guro'r targed, a chyflawni'r chwartel uchaf.
- Gwnaeth cyfradd y **trosglwyddiadau gofal gohiriedig** am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn, guro'r targed a gwella ar berfformiad y llynedd.
- O ran **plant sy'n derbyn gofal,** mae canran y lleoliadau cyntaf yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn ei le wedi gwella.
- Mae nifer y bobl ifanc yn teithio i/o'r ysgol yn y prosiect **Llwybrau Diogel i'r Ysgol** drwy feicio neu gerdded wedi cynyddu o 1102 i 1630.
- Mae **cyflwr prif heolydd** wedi dangos gwelliant bychan ond arwyddocaol o 3% o ran cyflwr o ganlyniad i'r rhaglen cynnal a chadw priffyrdd newydd
- Mae nifer y ceir sy'n defnyddio gwasanaethau **parcio a theithio** yn parhau i godi'n sylweddol.
- Mae canran y **gwastraff dinesig** a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio wedi cynyddu i 27.7% ac wedi curo'r targed o 25% ac wedi cyflawni hynny flwyddyn yn gynt na'r disgwyl.
- Mae nifer y cysylltiadau gyda'r **gwasanaeth ieuenctid** wedi cynyddu gan 70%.
- Mae nifer y **busnesau** sy'n dechrau gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes yn parhau i gynyddu.

**Ynghyd â hyn:-**

- **Trefniadau Polisi –** cyflawnwyd y safonau a'r targedau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn derbyn Grant Cymell Perfformiad.
- **Caffael –** cyflwynwyd ymagweddau newydd megis e-arwerthiannau i wella mynediad i'r broses gaffael a Gwerth am Arian ar gyfer y Cyngor.
- Mae **Rhesymoli gwasanaethau canolog –** yn parhau. Cyflwynwyd rhesymoli AD a Gwasanaethau Cyllid gydag arbedion ar gael i'w hail-fuddsoddi mewn mannau eraill.
- **E-Lywodraeth –** dyfarnwyd Cam 1 y contract gan gynnwys dyfarnu contract allanol ar gyfer TGCh. Mae Adnoddau@Abertawe bellach ar y trywydd iawn ac mae'r gwasanaeth TGCh yn perfformio yn ôl ei dargedau.

Ac eto, mae meysydd lle mae angen gweithredu pellach er mwyn gwella perfformiad. Mae'r dangosyddion a ganlyn wedi dangos gostyngiad mewn perfformiad neu fethiant i gyflawni'r targed.

- Mae canran y trethi busnes a gasglwyd wedi gostwng ychydig bach oherwydd nifer bychan o achosion o beidio â thalu oherwydd busnesau'n methu.

- Mae pwyntiau cyfartalog cymwysterau TGAU/galwedigaethol plant 16 oed, mewn lleoliadau dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol, wedi gwella ychydig yn ystod y flwyddyn o 37% i 37.3%. Fodd bynnag, mae'r dangosydd yn is na'r targed o 40 ac o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill mae yn y chwartel isaf. Ni chaiff cyrsiau ar gyfer pobl ifanc sy'n hygyrchu achrediadau eraill heblaw TGAU, eu cynnwys eto yn y Rhestr Gymeradwy o Gymwysterau, ond bydd hyn yn newid yn y dyfodol.

- Mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol yn y chwartel canolrif isaf o'i gymharu â ffigurau gorau awdurdodau Lloegr a Chymru; fodd bynnag, dylid nodi bod perfformiad yn y maes hwn wedi gwella yn 2005/06. Yn yr un modd, daeth cyfanswm yr ôl-ddyledion sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid hefyd o fewn y chwartel canolrif isaf, ac er bod hynny'n methu cyflawni ei darged ar gyfer 2005/06, roedd perfformiad wedi gwella o'i gymharu â 2004/05.

- Mae canran y ceisiadau cynllunio sylweddol a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos wedi gostwng o 40% i 32% o ganlyniad i gynnydd o 20% yn nifer y ceisiadau sylweddol a gyflwynwyd *(91 yn erbyn 76 yn 2004/05)* ynghyd â chynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau bychan gan roi pwysau ychwanegol ar adnoddau *(oddeutu 2,800 o geisiadau).* Mae newidiadau diweddar i Gyfansoddiad y Cyngor yn cynyddu'r graddau y dirprwyir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i swyddogion a dylai hynny wella perfformiad yn 2006/07. Mae newidiadau pellach i strwythur timau rheoli datblygiad ar waith i greu mwy o swyddi lefel gyrfa gyda'r nod o ddenu a chadw staff, er bod recriwtio staff yn parhau'n broblem genedlaethol.

- Mae cynnydd mewn troseddau ceir i 4,806 yn parhau'n bryder, ond gellir ei briodoli i amrywiadau tymhorol ac yn yr un modd, cynnydd mewn dwyn eiddo o geir. Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel fodd bynnag yn parhau i weithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater hwn ac mae mentrau ar waith i wella perfformiad. Felly, pleser mawr yw gweld lleihad parhaus *(gostyngiad o 27 achos)* yn nifer y byrgleriaethau domestig o'i gymharu â'r llynedd, gan wneud Abertawe yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo.

Ceir dadansoddiad manylach o berfformiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2005/06 yn Atodiadau'r Cynllun Gwella llawn. Gellir dod o hyd i fanylion pellach ynghylch ceisio copi ar dudalen olaf y ddogfen grynodol hon.

## Pennod 2

# Nodau ac Amcanion y Cyngor - Y Cynllun Corfforaethol

## Beth yw'r Cynllun Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn darparu trosolwg o Nodau ac Amcanion y Cyngor ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr holl wasanaethau. Gan weithredu dros gyfnod o 4 blynedd, mae'r Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2004/08 *("Gwell Gwasanaeth, Gwell Perfformiad")* bellach hanner ffordd drwyddo. Mae'n cael ei adolygu'n flynyddol ac yn dilyn yr adolygiad ar ddiwedd ei ail flwyddyn, gwnaed nifer o newidiadau.

**Mae'r newidiadau hyn yn ceisio:**

- Cadarnhau cyfeiriad y Cyngor.
- Ailddiffinio rhai o'r amcanion allweddol.
- Egluro amcanion a mesurau llwyddiant yn well.
- Gosod cyfres o egwyddorion sylfaenol sy'n cyfeirio ein holl weithredoedd a gwasanaethau.

Wrth ddatblygu'r newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol, mae barn defnyddwyr, trigolion a gweithwyr wedi cael eu derbyn a'u hystyried. Yn wir, mae arolygon gydag aelodau o'r cyhoedd wedi helpu i gadarnhau bod y diwygiadau i'r Cynllun yn adlewyrchu'n well yr hyn mae'r cyhoedd am ei weld ac yn ei ddisgwyl gan y Cyngor.

**Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys:**

- Cenhadaeth y Cyngor – dyheadau hir dymor y Cyngor.
- Y nodau trosgynnol – sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau a ddarperir.
- Themâu Strategol – sy'n disgrifio'r 5 prif agwedd y mae'r Cyngor hwn am eu datblygu a chanolbwyntio arnynt.
- Blaenoriaethau Corfforaethol – darparu manylion ar gyfer pob un o'r Themâu Strategol
- Mesurau llwyddiant – targedau i'w cwrdd i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau.
- Egwyddorion Sylfaenol – sy'n arwain ac yn hysbysu'r holl gamau gweithredu a gwasanaethau ar draws y Cyngor

***Manylir ar y rhain yn y tudalennau canlynol.***

## Cenhadaeth

**Nid yw hon wedi newid sef:**

***Bydd y Cyngor hwn yn darparu gwasanaethau sydd ymysg y gorau yn y DU ac yn arwain at gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Abertawe***

## Nodau Trosgynnol

Ychwanegwyd nod arall i adlewyrchu rhaglen e-lywodraeth y Cyngor sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd helaeth.

**Y nodau trosgynnol yw:**

- ***Darparu gwasanaethau o fewn y 25% uchaf o awdurdodau unedol cymaradwy'r DU***
- ***Gwella boddhad cwsmeriaid yn gyffredinol***
- ***Gweithredu fel un sefydliad***
- ***Arwain y gymuned a chysylltu â sefydliadau eraill***
- ***Gwella, drwy'r Rhaglen E-lywodraeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cyngor.***

## Themâu Strategol, Blaenoriaethau Corfforaethol a Mesur Llwyddiant

I helpu defnyddwyr gwasanaeth, trigolion a'n gweithwyr ein hunain i gael darlun cliriach o'r prif feysydd gwaith a'r rhai pwysicaf y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt. Mae hyn bellach yn cael ei ddiffinio gan bum thema strategol. Mae'r themâu hyn hefyd yn cyfateb i'r rheiny a geir yng Nghynllun Cymunedol Abertawe.

Ar gyfer pob un o'r Themâu Strategol, mae'r Cyngor wedi diffinio nifer bach o Flaenoriaethau Corfforaethol. Mae'r rhain wedi mireinio'r blaenoriaethau hynny a geir yn y Cynllun Corfforaethol gwreiddiol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyraeddadwy.

Mae gan bob Blaenoriaeth Gorfforaethol nifer o nodau neu dargedau lefel uchel i'w cyflawni a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant y camau gweithredu.

**Mae'r canlynol yn darparu manylion y Blaenoriaethau Corfforaethol a'r Mesurau Llwyddiant ar gyfer pob un o'r pum Thema Strategol:**

| Thema Strategol | Ystyr |
|---|---|
| ***Cymuned*** | *Helpu cymunedau yn Abertawe i ddatblygu a ffynnu.* |

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Mesur Llwyddiant |
|---|---|
| 1. Cynnal a datblygu cyfleoedd a gweithgareddau diwylliannol hygyrch, fforddiadwy a lleol | Darparu Llyfrgell ganolog a chanolfan Archifau newydd yn y Ganolfan Ddinesig newydd erbyn Ionawr 2008.<br><br>Cynnal a datblygu lleoliadau diwylliannol i gyflawni cyfraddau boddhad cwsmeriaid uchel *(h.y. cyrraedd boddhad o 85%)* |
| 2. Arwain adfywio cymunedau lleol. | Cynyddu’r defnydd o ganolfannau cymunedol ymysg trigolion lleol<br><br>Annog cyfranogiad gwirfoddolwyr a chefnogi eu rhan yn eu cymuned |
| 3. Gwella’r stoc tai | Gweithio tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. |
| 4. Gwella cyfleoedd i Blant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau defnydd cadarnhaol o hawliau a gwasanaethau | Ehangu’r cyfleuster “siop cyngor dan yr unto” i roi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc.<br><br>Cynyddu canran y cysylltiadau a wnaed gyda phlant a phobl ifanc a swm y gwaith gyda hwy.<br><br>Cynyddu nifer y bobl ifanc sy’n cymryd rhan yn y fforwm ieuenctid.<br><br>Cynyddu nifer yr oriau cynlluniau chwarae achrededig sydd ar gael. |
| 5. Gyda’n partneriaid, llwyddo i leihau troseddu. | Llunio Adroddiad Blynyddol sy’n amlinellu cynnydd ar fodloni holl dargedau cytunedig y Swyddfa Gartref sy’n ymwneud â Diogelwch Cymunedol. |

| Thema Strategol | Ystyr |
|---|---|
| ***Yr Amgylchedd*** | *Diogelu a gwella amgylchedd Abertawe i bawb.* |

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Mesur Llwyddiant |
|---|---|
| 1. Datblygu a rhoi Datrysiad Rheoli Gwastraff integredig ar waith | Cynyddu ailgylchu i 22% o'r holl wastraff<br><br>Cynyddu compostio i 10% o'r holl wastraff<br><br>Datblygu Canolfan Cymysgu Compost i greu compost gwerthadwy. |
| 2. Rhoi rhaglen gludiant integredig ar waith gyda ffocws ar gludiant cyhoeddus. | Adeiladu cyfleuster Parcio a Theithio newydd yn Fforestfach erbyn Ionawr 2007.<br><br>Dechrau datblygu cyfnewidfa fysus fodern, diogel a deniadol yn y Cwadrant.<br><br>Cyflwyno blaenoriaeth i fysus yn Nhreforys, Ffordd Fabian a Glandŵr.<br><br>Cwblhau isadeiledd Cam 1 prosiect Metro Abertawe |
| 3. Diogelu a gwella ansawdd ein hamgylchedd adeiledig a naturiol. | Mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol a'r roi ar waith i reoli defnydd tir yn y dyfodol.<br><br>Gwella'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio i 70% o'r holl geisiadau o fewn 8 wythnos. |
| 4. Amddiffyn y defnyddiwr drwy drefn ragweithiol yn seiliedig ar risg. | Sicrhau bod yr holl safonau statudol yn cael eu bodloni o ran pob gweithgaredd risg uchel |

| Thema Strategol | Ystyr |
|---|---|
| ***Dysgu*** | *Darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel i gefnogi lles cymdeithasol ac economaidd* |

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Mesur Llwyddiant |
|---|---|
| 1. Gwella perfformiad ysgolion | **Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni:**<br>• 5 gradd A* i C i 52.7% erbyn 2008<br>• Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 i 74% yn 2008<br>• Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 i 58% yn 2008<br><br>Cyflawni cyfraddau presenoldeb o 90.3% ar gyfer ysgolion uwchradd a 93.4% ar gyfer ysgolion cynradd yn 2008<br><br>Datblygu Prifysgol y Plant i achredu dysgu y tu allan i oriau ysgol ar gyfer 3000 o blant a phobl ifanc yn 2006, ac 20,000 erbyn 2009. |
| 2. Gwella ansawdd cyffredinol darpariaeth addysgol ysgolion a'u hadeiladau. | Cwblhau'r gwaith adeiladu ar gyfer cyfleuster addysgu arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn ystod tymor yr hydref 2006<br><br>Agor ysgol gynradd newydd yn St Thomas erbyn mis Ebrill 2008<br><br>Agor safle West Cross ar gyfer ysgol Gymraeg dosbarth a hanner erbyn mis Medi 2008<br><br>Cynnal arolwg o gyflwr yr holl ysgolion a sefydlu cynlluniau gwella.<br><br>Datblygu menter 'Dechrau'n Deg' Llywodraeth y Cynulliad gan ddarparu ar gyfer plant ifanc iawn. |
| 3. Gwella ansawdd ac ystod y cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bawb. | Sicrhau cytundebau "Dysgu'n Seiliedig ar Waith" gan LlCC i alluogi o leiaf 1600 i gofrestru bob blwyddyn.<br><br>Cynyddu canran yr ymadawyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth gyda chymhwyster a/neu ganlyniad cadarnhaol arall o 69% i 77% erbyn 2008/2009.<br><br>Defnyddio'r rhaglen Dysgu'n Seiliedig ar Waith newydd ar gyfer pob oed i gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer dysgu galwedigaethol o 25 i 200 erbyn 2009. |

| Thema Strategol | Ystyr |
|---|---|
| ***Iechyd a Lles*** | *Helpu’r holl drigolion a chefnogi cymunedau i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a’u lles eu hunain a’u gwella* |

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Mesur Llwyddiant |
|---|---|
| 1. Cefnogi’r anabl a’r henoed i fyw bywydau annibynnol | Ehangu amrywiaeth ac argaeledd gwybodaeth gyhoeddus am y gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau gwybodus a hybu cyfrifoldeb personol.<br><br>Gwella’r broses o gynnal asesiadau a’r ffordd y mae cefnogaeth yn cael ei threfnu a’i darparu<br><br>Cefnogi mwy o bobl i fyw yn eu cartrefi drwy fwyafu’r ddarpariaeth o gyfarpar priodol.<br><br>Cynyddu nifer y bobl sy’n cael eu cefnogi i drefnu a rheoli eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol.<br><br>Cyflwyno pecynnau gofal priodol i leihau oedi ar gyfer pobl sy’n gadael yr ysbyty |
| 2. Amddiffyn plant ac oedolion hawdd eu niweidio | Recriwtio 6 gofalwr maeth ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi plant sy’n hawdd eu niweidio |
| 3. Annog ffyrdd iach o fyw a chyfrifoldeb personol dros iechyd a lles | Cynyddu nifer yr ymweliadau â lleoliadau/gwasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth *(h.y. cynnydd o 1%)*<br><br>Darparu cyfleoedd ymarfer corff newydd i bobl 50 oed a throsodd i leihau nifer yr achosion o gwympo ac i hybu lles corfforol a seicolegol. |

| Thema Strategol | Ystyr |
|---|---|
| ***Ffyniant*** | *Helpu Abertawe i ddod yn Ddinas Ewropeaidd ffyniannus sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol.* |

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Mesur Llwyddiant |
|---|---|
| 1. Gweithio gyda phartneriaid i adfywio Canol y Ddinas | Creu Fframwaith Strategol ar gyfer Canol y Ddinas i ymgynghori arno erbyn mis Hydref 2006<br><br>Ailddatblygu Canolfan Hamdden Abertawe erbyn Ionawr 2008 er mwyn helpu i adfywio Canol y Ddinas.<br><br>Cytuno a rhoi'r cynigion dylunio ar waith er mwyn gwella mannau cyhoeddus Canol y Ddinas. |
| 2. Cynnal datblygiad yr Economi Wybodaeth yn Abertawe | Gyda'n partneriaid, llunio Strategaeth Economi Wybodaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin erbyn mis Rhagfyr 2006 |
| 3. Helpu i gynyddu nifer y bobl mewn cyflogaeth ar draws Abertawe. | Sefydlu a chytuno ar Strategaeth Adfywio Economaidd erbyn mis Rhagfyr 2006 |
| 4. Ymestyn cefnogaeth a hyrwyddo cyfleoedd i annog entrepreneuriaeth. | Helpu i greu 220 o fusnesau newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2007<br><br>Darparu cefnogaeth TG a busnes gyffredinol i 400 o fusnesau erbyn diwedd mis Mawrth 2007<br><br>Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol newydd a rhai presennol |
| 5. Datblygu ac arwain y gwaith o roi Strategaeth Twristiaeth Abertawe a Gŵyr ar waith. | Llunio Strategaeth Twristiaeth ar gyfer Ardal Dinas a Sir Abertawe erbyn mis Gorffennaf 2006 |

# *Cefnogi Cyflwyno Gwasanaethau*

Mae'r Cyngor a'i holl wasanaethau'n ymroddedig i sicrhau cyflwyno gwasanaethau ardderchog. Ni ellir cyflawni hyn ond os yw'r gwasanaethau a'r swyddogaethau cefnogi o ansawdd uchel.

**Darperir Gwasanaethau a Swyddogaethau Cefnogi'r Cyngor hwn gan y meysydd gwasanaeth canlynol:**

- Adnoddau Dynol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Eiddo Corfforaethol
- Prosiectau Strategol
- Perfformiad a Chynllunio Strategol
- Gwasanaeth@Abertawe
- Rhaglen E-lywodraeth
- Cyfreithiol
- Caffael Strategol
- Cyllidebau a Grantiau
- Gwasanaethau Ariannol
- Cyfathrebu.

***Mae'r tabl isod yn nodi amrywiaeth o Flaenoriaethau Allweddol ar gyfer y gwasanaethau cefnogi hyn ac yn nodi'r gwasanaethau hynny sy'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn.***

| Blaenoriaeth Allweddol | Gwasanaeth Cefnogi |
|---|---|
| ***Gwella mynediad i wasanaethau drwy Gwasanaeth@Abertawe***<br><br>Mae hyn yn cynnwys datblygu a chyflwyno'r Ganolfan Gyswllt a Galwadau yn y Ganolfan Ddinesig i gyflwyno cyswllt effeithiol a rhesymol ar gyfer cwsmeriaid ar draws yr holl wasanaethau. | • Gwasanaeth@Abertawe<br>• Rhaglen E-lywodraeth<br>• Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| ***Parhau i wella ein rheolaeth gorfforaethol, perfformiad ac ariannol integredig gyda ffocws ar Perfformiad.Gorau2008.***<br><br>Mae hyn yn cynnwys datblygu ymagweddau cynllunio ariannol a chorfforaethol integredig ymhellach yn gysylltiedig â rheoli perfformiad cadarn. | • Perfformiad a Chynllunio Strategol<br>• Cyllidebau a Grantiau |

| Blaenoriaeth Allweddol | Gwasanaeth Cefnogi |
|---|---|
| ***Cyflawni rheolaeth effeithiol ar asedau strategol a chorfforaethol.***<br><br>Mae hyn yn ymwneud ag eiddo a thir ym meddiant y Cyngor ac yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o adeiladau gweithredol a sicrhau cyfraddau adennill gwell o'r portffolio eiddo ehangach. | • Eiddo Corfforaethol |
| ***Gwella gallu ac effeithlonrwydd ein gweithlu drwy arferion gwaith modern, hyfforddi a datblygu staff, gwell rheolaeth ar brosiectau, buddsoddi mewn technoleg a chyflawni safonau Buddsoddwyr mewn Pobl.***<br><br>Gweithlu'r Cyngor yw ei ased fwyaf. Mae sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn effeithlon yn fater allweddol ar gyfer yr holl wasanaethau gyda'r Gwasanaethau Cefnogi'n darparu'r mecanweithiau i wneud hyn. | • Adnoddau Dynol<br>• Perfformiad a Chynllunio Strategol<br>• Prosiectau Strategol<br>• Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br>• Gwasanaeth@Abertawe<br>• Rhaglen E-lywodraeth<br>• Cyfreithiol<br>• Cyfathrebu. |
| ***Gwella effeithlonrwydd y Cyngor drwy brosesau busnes gwell, symleiddio gwasanaethau a buddsoddi mewn systemau Technoleg Gwybodaeth corfforaethol "swyddfa gefn" newydd.***<br><br>Fel sefydliad mawr a chymhleth, mae angen buddsoddi parhaus mewn gweithdrefnau a systemau i sicrhau bod y Cyngor yn addas at y diben ac i fodloni galwadau'r 21ain ganrif. | • Adnoddau Dynol<br>• Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br>• Caffael Strategol<br>• Rhaglen E-lywodraeth<br>• Cyfreithiol<br>• Cyfathrebu. |

# Egwyddorion Sylfaenol

**Mae holl wasanaethau a chamau gweithredu'r Cyngor yn cael eu cyflwyno a'u cynnal yn unol â 3 phrif egwyddor sylfaenol:**

***Gonestrwydd***

***Hygyrchedd***

***Cynaladwyedd.***

**Rydym yn dangos ein hymrwymiad i'r egwyddorion hyn yn y ffyrdd canlynol:**

## Gonestrwydd

- Cynnal ein materion yn agored ac yn onest.
- Gweithio gydag amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion i ddylunio a gwella gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor
- Gweithio'n agored gyda'n sefydliadau partner i sicrhau cyflawniad nodau cyffredin

## Hygyrchedd

- Gwerthfawrogi ein holl gwsmeriaid a sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn effeithlon ac yn gwrtais.
- Sicrhau triniaeth deg a chyfiawn ar gyfer ein holl gwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion.
- Prif ffrydio camau gweithredu a pholisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol
- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

## Sustainability

- Sicrhau bod ein holl weithredoedd a pholisïau'n gynaliadwy, drwy integreiddio nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

***Gyda'i gilydd mae'r 5 thema a amlinellir yn y Cynllun Cymunedol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Gwella yn cyfrannu at weledigaeth tymor hir y Cyngorar gyfer Abertawe. Mae'r Cynllun Gwella yn darparu gwybodaeth am y fframwaith perfformiad a ddefnyddir i fesur a dadansoddi cynnydd tuag at gyflawni'r weledigaeth.***

## *Pennod3*

# *Cyflawniadau a Chamau Gweithredu*

Fel Cyngor, rydym yn aml yn canolbwyntio ar fethiannau a phroblemau heb ganiatáu ond ychydig o amser i ddathlu llwyddiannau. Petaem yn gallu sicrhau bod llwyddiannau yn cael eu cofnodi a'u cydnabod, byddai hynny o gymorth mawr i wella ein perfformiad fel sefydliad.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn adolygu'i gyflawniadau o'r flwyddyn flaenorol er mwyn helpu i hysbysu camau gweithredu'r flwyddyn i ddod. Yn nodweddiadol, byddai'r camau hynny'n cynnwys gwelliannau i wasanaethau, prosiectau a chynlluniau sydd oll yn hanfodol i gyflwyno gwasanaethau i gwsmeriaid.

Diben y bennod hon yw darparu trosolwg o rai o gyflawniadau'r llynedd ynghyd â chrynhoi'r gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod *(2006/07).* Er hwylustod darllen, mae hyn wedi cael ei fynegi ar draws y themâu strategol a amlinellir yn y bennod flaenorol.

# *Cymuned*

## *Yr hyn rydym wedi'i wneud*

- **Stadiwm** – fe'i cydnabyddir yn gyffredinol fel un o'r cyfleusterau gorau o'i fath yn y DU, ac fe'i agorwyd ar amser.
- **Canolfan Hamdden** – cytunwyd ar y ffordd ymlaen a dyfarnwyd contractau. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cyfleuster o'r radd flaenaf.
- **Pentref Chwaraeon** – cwblhawyd yn Heol Ashleigh.
- **Hamdden Cymunedol** – mae miloedd o drigolion wedi defnyddio'r cyfleusterau cardiofasgiwlar a gwrthiant cryfder yn Llandeilo Ferwallt, Cefn Hengoed, Treforys, Penlan a Phenyrheol. Gwnaed y gwaith adnewyddu o ganlyniad i benderfyniad Cyngor Abertawe i fuddsoddi £425,000 yn ei ganolfannau ffitrwydd yn y ddinas.
- **Llyfrgelloedd** – Mae staff yn llyfrgelloedd Abertawe ymysg y gorau ym Mhrydain, yn ôl arolwg CIPFA o wasanaethau ar draws y wlad. Mae Cyngor Abertawe wedi cymharu ei wasanaeth llyfrgelloedd ag 21 o'r cynghorau gorau o'r un maint o amgylch Prydain ac mae ar frig y rhestr ar gyfer ei wasanaeth ymholiadau a chymorth staff.
- **Llyfrgell Cilâ** – agorwyd llyfrgell newydd yn lle'r un blaenorol a ddinistriwyd gan dân. Cafwyd llawer o sylwadau cadarnhaol gan ddefnyddwyr.
- **Llyfrgell Clydach**– fe'i hailagorwyd yn ddiweddar wedi gwaith adnewyddu.
- **Diogelwch Cymunedol** – cafwyd gwelliannau sylweddol o ran lleihau troseddu.
- Enillodd Abertawe wobr am y cynllun **rheoli canol tref** gorau yng Nghymru. Enillodd y ddinas y wobr oherwydd ei safbwynt ragweithiol wrth fynd i'r afael â throseddu sy'n ymwneud ag alcohol.
- **Cymunedau'n Gyntaf** - Cefnogwyd mentrau Adfywio Cymunedol gyda thros £4m o arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a sicrhawyd gennym gyda'n partneriaid cymunedol lleol ar gyfer 2005-2008.
- **Gwirfoddolwyr** – Parhaodd ein gwaith mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr ar draws Dinas a Sir Abertawe i dyfu gydag amrywiaeth eang o weithgareddau yn cael eu cynnal yn ein cyfleusterau cymunedol – roedd y ffigurau defnydd yn fwy na 500,000 yn 2005/06 ac roedd 230,000 o'r rhain yn bobl ifanc
- **Ysgol Penyrheol** – o sefyllfa wael, mae rhai arwyddion cadarnhaol iawn i'w gweld yn arbennig ynghylch parhau i gyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion. Cafwyd adroddiadau cadarnhaol yn y wasg leol gan rieni.
- **Cydraddoldeb** – ail-lansiwyd y Cynllun Iaith Gymraeg yn yr Eisteddfod
- **Digartrefedd** – Rhagorwyd ar y targed ar gyfer canran y bobl ddigartref y penderfynwyd ar eu hachosion o fewn terfynau amser cenedlaethol, gan osod y dangosydd hwn yn Chwartel Uchaf y ffigurau o gymharu â ffigurau gorau awdurdodau Cymru a Lloegr.

- **Atgyweirio tai –** Curwyd y targed ar gyfer canran yr atgyweiriadau tai a ddosbarthwyd fel rhai brys, gan osod y dangosydd hwn yn y Chwartel Uchaf o ffigurau o'i gymharu â ffigurau gorau awdurdodau Cymru a Lloegr.
- **Aneddiadau sector preifat anaddas –** gosododd gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol yr awdurdod yn y Chwartel Uchaf o ran perfformiad o'i gymharu â ffigurau gorau awdurdodau Cymru a Lloegr.
- **Dyfodol tai** – mae'r prosiect 100% ar y trywydd cywir ar gyfer cynnal pleidlais gudd i denantiaid yn yr hydref. Mae LICC yn fodlon ar yr holl ymagweddau a gymerwyd yn y mater dyrys hwn.

## *Yr hyn y bwriadwn ei wneud*

- **Canolfan Ddinesig –** parhau â'r prosiect sylweddol i ddatblygu a chyflwyno Canolfan Ddinesig, Llyfrgell, Canolfan Archifau a Chanolfan Gyswllt newydd.
- **Canolfan Hamdden –** parhau â'r prosiect sylweddol i ddatblygu a chyflwyno'r Ganolfan Hamdden / Atyniad Ymwelwyr newydd
- **Diwylliant –** Gweithredu Strategaeth Gelfyddydol newydd erbyn mis Ebrill 2007
- **Tenantiaid –** cynyddu lefel cyfranogiad tenantiaid ar fentrau tai allweddol drwy roi strategaeth cyfranogiad tenantiaid ar waith erbyn mis Medi 2006
- **Digartrefedd –** lleihau nifer y teuluoedd digartref â phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn drwy atal, datblygu dewisiadau heblaw am wely a brecwast a mwy o ddewisiadau yn y sector preifat erbyn mis Mawrth 2007
- **Dyfodol Tai –** cynnal pleidlais ymhlith tenantiaid yn 2006 ac os ceir canlyniad cadarnhaol, bydd potensial i drosglwyddo stoc tai i Tai Tawe
- **Adfywio'r Hafod –** parhau â'r rhaglen gyfalaf ar gyfer adnewyddu trwy gydol 2006/07
- **Troseddwyr Ifanc** – yn 2007, lleihau nifer y troseddwyr ifanc mynych gan 5%
- **Gwirfoddolwyr –** parhau i annog a datblygu cyfranogiad gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau cymunedol
- **Plant a Phobl Ifanc –** Gwella hygyrchedd gwasanaeth Info-Nation yng nghanol y ddinas drwy ymestyn yr oriau agor yn dilyn ymgynghoriad â phobl ifanc.

# Yr Amgylchedd

## Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Ailgylchu –** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau heriol ar gyfer ailgylchu a chompostio gan fod rhaid o leiaf 40% o'r holl wastraff gael ei ailgylchu erbyn 2009/10. Mae cyfradd ailgylchu a chompostio Abertawe wedi neidio i fyny dros y blynyddoedd o 3% i dros 27% ar ddiwedd 2005/06. Dyma un o'r cyfraddau gorau yng Nghymru a hynny flwyddyn o flaen targed LICC o 25% erbyn 2006/07. Mae hyn gyfystyr â 39,000 tunnell o ddeunyddiau na chaiff eu hanfon i safle tirlenwi bellach.
- **Meysydd Parcio –** Mae Cyngor Abertawe wedi gwario dros £750,000 i ail-wampio'n gyfan gwbl faes parcio'r Cwadrant, y tu mewn a'r tu allan, fel bod ymwelwyr yn cael cyfleuster parcio o'r radd flaenaf wrth siopa. Mae mwyafrif o feysydd parcio'r Cyngor yng nghanol y ddinas bellach wedi cyflawni dyfarniad "Diogel trwy Ddyluniad" fel meysydd parcio diogel.
- **Trwyddedu –** cyfrifoldebau newydd ar gyfer trwyddedu gwirodydd o fewn amserlen dynn iawn er mwyn sicrhau cyflawni o fewn yr amserlen strategol.
- **Marina –** derbyniodd ddyfarniad pum angor am y modd y caiff ei reoli a'i gyfleusterau sydd ymysg y nifer bychan o farinas yn y wlad sydd wedi derbyn y statws hwn. Yn 2006 gosodwyd rhwystrau diogelwch glan môr newydd.
- **Toiledau Cyhoeddus –** Mae tîm adran yr Amgylchedd a Iechyd, sy'n gyfrifol am bedwar o doiledau cyhoeddus Abertawe sydd wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol unwaith eto yn Nyfarniad Blynyddol Toiled y Flwyddyn 2005, wedi derbyn eu tystysgrifau.
- **Polisi Cynllunio –** polisïau arwyddocaol newydd i'r mabwysiadu gan y Cyngor gan gynnwys y CDU, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r Cynllun Rheoli AoHNE.
- **Isadeiledd Cludiant –** mae'r Adran wedi datblygu coridor blaenoriaeth i fysus newydd yn yr Hafod ac ar Ffordd Fabian er mwyn gwella'r Gwasanaethau Parcio a Theithio. Mae'r adran hefyd wedi caffael y bws Pad er mwyn dechrau'r gwaith o ailddatblygu Gorsaf Fysus y Cwadrant.
- **Bysus –** mae'r Cyngor wedi prynu llu newydd o fysus mynediad llawr isel newydd gyda'u logo'i hun arnynt er mwyn gwasanaethu ardaloedd gwledig y sir yng Ngŵyr a Mawr.
- **Parcio a Theithio –** yn ddiweddar cyhoeddodd y Cyngor ffigurau defnyddwyr blynyddol ar gyfer 2005 yn safleoedd Glandŵr a Ffordd Fabian. Amlygodd ystadegau 2005 gynnydd o 49% yn nifer y ceir a barciodd yn y cyfleusterau pwrpasol o'u cymharu ag ystadegau 2004. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys trydydd cyfleuster erbyn Nadolig 2006 yn dilyn nodi safle priodol ar hyn Ffordd Caerfyrddin.
- **Ffyrdd –** Cyngor Abertawe yw'r awdurdod priffyrdd cyntaf yng Nghymru i gynhyrchi Rhaglen Rheoli Asedau Priffyrdd. Mae hyn eisoes wedi effeithio ar gyflwr y prif ffyrdd sydd wedi gwella gan 3%.

- **Cludiant** – enillodd llu y Cyngor, sy’n cael ei weinyddu gan Uned Gludiant y Cyngor, Dyfarniad Lluoedd Gwyrdd Llu Sector Cyhoeddus y Flwyddyn yn 2005, a noddir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae’r Gwobrau Lluoedd Gwyrdd yn cydnabod cyflawniadau sectorau cyhoeddus a phreifat ar draws y DU wrth weithredu cludiant a thechnoleg gwyrdd. Mae’r Cyngor hefyd wedi ennill Gwobrau Cludiant Cymru a’r DU.

## *Yr hyn y bwriadwn ei wneud*

- **Ailgylchu** – byddwn yn darparu gwasanaeth rheoli gwastraff cynaliadwy yn unol â strategaeth y Cyngor er mwyn cyflawni targedau statudol ac anstatudol ac i wella trefniadau ailgylchu ar gyfer dinasyddion a busnesau erbyn Rhagfyr 2007
- **Gwastraff tirlenwi** – o fis Hydref 2006, byddwn yn paratoi i gyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac yn gweithio tuag at gyflwyno gwaith compostio a blendio
- **Isadeiledd cludiant** – sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu a’i reoli mewn modd cynaliadwy a bod y priffyrdd yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb
- **Cludiant** – byddwn yn cwblhau’r llwybrau bysus cyflym o safleoedd Parcio a Theithio Glandŵr a Ffordd Fabian ac yn datblygu trydydd safle Parcio a Theithio yn Fforestfach
- **Cwadrant** – ailddatblygu gorsaf fysus y Cwadrant erbyn mis Rhagfyr 2008
- **Glanhau strydoedd** – byddwn yn adolygu’r ymagwedd ardal at lanhau strydoedd ac yn mabwysiadu strategaeth a chynllun gweithredu sbwriel erbyn mis Medi 2006
- **Marina** – byddwn yn darparu rhaglen reoli a chynnal a chadw gyfrifol ac integredig i’r Ardal Forol drwy gynyddu’r gallu i ennill incwm a chyflawni statws Gwobr ar gyfer y Marina erbyn mis Mawrth 2007
- **Diogelwch Ffyrdd** – datblygu Cynllun Diogelwch Ffyrdd cynhwysfawr o fis Ebrill 2007
- **Cynnal a chadw priffyrdd** – cyflwyno’r rhaglen gynnal a chadw gynlluniedig ar gyfer lonydd cerbydau, llwybrau cerdded, draeniad, ffensys diogelwch a goleuadau stryd erbyn mis Mawrth 2007
- **Ffyrdd** – buddsoddi £10m dros y pum mlynedd nesaf i gynnal oddeutu 200km o ffyrdd a phalmentydd yn Abertawe.
- **Cynllunio** – parhau i weithio i wella’r Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio er mwyn cyflawni’r targedau rhagamcanol ar gyfer penderfynu ar geisiadau mawr, bychan, perchnogion tai a cheisiadau eraill. Bydd hyn yn cynnwys ailgyflwyno’r gwasanaeth cynghori cyn gwneud cais.

# Dysgu

## Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Presenoldeb mewn ysgolion** – Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella o 92.16% i 92.50% gan osod Abertawe yn 15fed yng Nghymru ac yn 22ain dros nifer o flynyddoedd. Gwnaeth presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wella o 90.0% i 90.1% gan osod Abertawe yn 15fed yng Nghymru o'i gymharu â'r 21ain dros nifer o flynyddoedd.
- **Cyfnod Allweddol 3 *(14 oed)*** – yn ôl y dangosydd pynciau craidd, dangosodd y canlyniadau cyfun ar gyfer Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf i Abertawe wella i'r 3ydd safle dros amser o'i feincnodi ag awdurdodau eraill Cymru.
- **Canlyniadau TGAU 5A* i C** – Roedd dangosyddion ar gyfer canran y disgyblion mewn ysgolion sy'n cyflawni 1 neu fwy a 5 neu fwy o TGAU graddau A*-C *(neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol)* yn dangos gwelliant da o ran perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- **Sgôr pwyntiau Cyfnod Allweddol 4** *(gwerth ychwanegol)* – Mae'r canlyniadau meincnodi yn gosod Abertawe yn 9fed ar draws Cymru ac mae hyn ar i fyny o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- **Dysgwyr yn gadael Hyfforddiant Cyflogaeth** – Mae'r perfformiad wedi curo'r targed o 72% a osodwyd ar gyfer dysgwyr yn gadael â chanlyniad cadarnhaol cyn amserlen 2006/07 a bennwyd yn y Cytundeb Polisi.
- **Plant sy'n derbyn gofal** – mae sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod wedi dangos gwelliant o ran perfformiad a hefyd wedi gorffen yn gyfforddus o fewn y targed ar gyfer 2005/06.
- **InfoNation** – mae'r siop gwybodaeth i ieuenctid yn 47 Ffordd y Brenin wedi diogelu £396k mewn arian grant i ehangu ei wasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc ymhellach. Disgwylir cwblhau datblygiad cyn diwedd y flwyddyn a bydd yn dod yn siop dan yr unto ar gyfer Pobl Ifanc. Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth cyfredol – mae bron 14,000 o Bobl Ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y 2 flynedd ddiwethaf.

## *Yr hyn y bwriadwn ei wneud*

- **Cyflawniadau addysgiadol –** parhau i weithio i wella cyflawniad TGAU a Chyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3
- **Presenoldeb mewn ysgolion –** byddwn yn gwella presenoldeb, yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwahardd o'r ysgol ac yn ehangu gallu ysgolion i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau ymddygiadol drwy sefydlu cynllun i fynd i'r afael â her gwaharddiadau erbyn mis Gorffennaf 2007
- **Cyfleuster Addysgu Arbenigol –** cwblhau adeiladu'r cyfleuster hwn i ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog erbyn diwedd 2006
- **Ysgol St Thomas –** parhau i adeiladu er mwyn cyflawni'r dyddiad cwblhau targed, sef mis Ebrill 2008
- **Cyflwr Ysgolion –** cynnal arolwg o gyflwr pob ysgol
- **Cynhwysiad –** byddwn yn datblygu Unedau Cefnogi Dysgu a grwpiau meithrin mewn ysgolion o fis Gorffennaf 2006
- **Addysg ôl-16 –** byddwn yn cynyddu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn gwella lefelau sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc 16+, drwy gynyddu canran y rheiny sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth â chymhwyster a/neu ganlyniad cadarnhaol arall i 77% erbyn 2008/09
- **Dysgu gydol oes –** gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, cymunedau a sefydliadau i hyrwyddo a chefnogi dysgu drwy gydol oes drwy ddarparu cyfleoedd dysgu mewn o leiaf tair ardal Cymunedau'n Gyntaf er mwyn cefnogi polisïau economeg / cymdeithasol cenedlaethol a lleol erbyn mis Mawrth 2007
- **Dysgu fel Teulu –** gweithredu'r rhaglen dysgu fel teulu mewn o leiaf 3 ysgol uwchradd a 45 ysgol gynradd yn ystod 2006/07
- **Datblygu Prifysgol y Plant** i achredu dysgu y tu allan i oriau ar gyfer 3000 o blant a phobl ifanc yn 2003, a 20,00 erbyn 2009.
- **Ysgol Penyrheol –** cwblhau gwaith ailadeiladu'r ysgol yn ystod 2008.

# Iechyd a Lles

## Beth rydym wedi'i wneud

- **Oedolion ag anableddau dysgu, oedolion â salwch meddwl ac oedolion anabl** – Cyflawnwyd llwyddiant sylweddol wrth ddatblygu amrediad o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, oedolion â salwch meddwl ac oedolion anabl. Cafwyd arian ychwanegol sylweddol drwy Amcan 1 ac mae gweithio ar y cyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau eraill yn profi'n effeithiol iawn.
- **Trosglwyddo Gofal Gohirio** – Gwnaeth cyfradd y trosglwyddiadau gofal gohiriedig am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn nid yn unig guro'r targed a osodwyd ar gyfer 2005/06, ond hefyd wella 44% ar berfformiad 2004/05.
- **Helpu pobl dros 65 i fyw yn eu cartrefi** – parhaodd perfformiad i wella ac adlewyrchu camau gweithredu'r adran i gyflawni'r amcan corfforaethol pwysig hwn. Canlyniad hyn oedd dibyniaeth is ar ddarpariaeth gofal cartref.
- **Prosiect Pobl Hŷn** – parhawyd i foderneiddio'r gwasanaethau er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ein poblogaeth sy'n heneiddio. Yr allwedd yw canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailalluogi gan ganiatáu i bobl gyflawni a chynnal eu potensial mwyaf.
- **Gofal 1 i 1** – fe'i datblygwyd i ddarparu gwasanaethau maethu yn lleol gan osgoi lleoliadau y tu allan i'r ardal drwy ddarparu gofalwyr cyflogedig.
- **Gwasanaethau atal ar gyfer Gofal plant** – fe'u cyflwynwyd i gefnogi teuluoedd o oedran cynnar a lleihau'r angen i blant gael eu cymryd i'r system derbyn gofal.
- **Strategaeth Cam-drin Domestig** – fe'i datblygwyd gan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel, gyda chyfraniad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r nod o wella gwasanaethau diogelu pobl ddiamddiffyn

## *Beth bwriadwn ei wneud*

- **Gofalwyr Maeth –** parhau â'r cynllun gofalwyr Maeth 1 i 1 yn ystod 2006/07, gan gynyddu nifer y gofalwyr maeth gan 5 i alluogi darparu mwy o leoliadau'n "fewnol" a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd â dau neu fwy o leoliadau mewn blwyddyn
- **Gwasanaethau Iechyd Meddwl –** ail-lunio gwasanaethau iechyd meddwl ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
- **Pobl Hŷn –** Byddwn yn datblygu Strategaeth Pobl Hŷn
- **Iechyd a Diogelwch Tai –** byddwn yn darparu gwasanaeth rheoleiddiol ymatebol a rhagweithiol i wella'r amgylchedd ffisegol ac i wella iechyd cyhoeddus drwy weithredu system graddio iechyd a diogelwch Tai statudol newydd ar gyfer y sector tai preifat erbyn mis Gorffennaf 2006
- **Plant sy'n Derbyn Gofal –** diogelu disgyblion a gwella'r canlyniadau addysgiadol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy ddatblygu protocol ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal erbyn mis Gorffennaf 2007
- **Gofal Plant –** byddwn yn bwrw ymlaen â sefydlu cyfleuster yn lle Tŷ West Cross gyda'r nod o gwblhau yn ystod 2007
- **Gohirio trosglwyddo gofal –** cynnal gwelliant ers y llynedd er mwyn sicrhau bod cleifion yn dychwelyd adref neu i gyfleuster priodol arall cyn gynted â phosib
- **Technoleg gynorthwyol –** Parhau i ddarparu cymhorthion / offer a datblygu ymhellach y defnydd o dechnoleg gynorthwyol i alluogi mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol.
- **Ffordd iach o fyw –** Cyflwyno'r strategaeth chwaraeon a gweithgareddau corfforol *(Dringo'n Uwch)*

# *Ffyniant*

## *Yr hyn rydym wedi'i wneud*

- **Datblygiadau canol y ddinas** - Miliynau o bunnoedd o fuddsoddi newydd sydd wedi newid gwedd canol dinas Abertawe.

  **Mae'r rhain yn cynnwys:**

  - Datblygiad £200 miliwn SA1.
  - Amgueddfa Genedlaethol y Glannau;
  - Dymchwel adeilad Unifloc a chreu Lawnt yr Amgueddfa.
  - Caffis, tai bwyta a gwesty newydd Salubrious Place;
  - Datblygiad casino a sinema yn Stryd y Gwynt;
  - Datblygiad £2.2m Ffordd y Dywysoges.
- **Rhanbarth Gwella Busnes** – Y Rhanbarth Gwella Busnes *(BID)* cyntaf yng Nghymru a gytunwyd gan Fusnesau Canol y Ddinas. Hefyd sefydlwyd cwmni BID a fydd yn rhedeg y bid.
- **Canolfan Ddinesig** – y prosiect bellach ar waith ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'r mwyafrif o agweddau ac yn rhan o'r rhaglen i gysylltu canol y ddinas â'r Bae.
- **Dyfodol Abertawe** – Sefydlwyd Dyfodol Abertawe Cyf gyda'r nod o 'Hyrwyddo Abertawe fel lle i fyw, dysgu a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef'. Cwmni di-elw yw Dyfodol Abertawe, wedi'i gyfyngu gan warant, a chaiff ei reoli gan fwrdd o gyfarwyddwyr. Fe'i lansiwyd yn swyddogol yn 2006 gyda'r linell hysbysebu "Abertawe, bae llawn bywyd"
- **Abertawe 20:20** – Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe – crëwyd strategaeth adfywio economaidd newydd yn seiliedig ar dystiolaeth, gan amlinellu 6 nod strategol a 4 thema trawsbynciol. Bydd y ddogfen drosgynnol yn cynnwys cynllun gweithredu i'w weithredu gyda'n partneriaid i sicrhau adfywiad economaidd parhaus Abertawe. Datblygwyd trefniadau partneriaeth adolygedig i gyflwyno'r strategaeth.

## *Yr hyn y bwriadwn ei wneud*

- **Strategaethau –** ymgynghori'n eang ar Fframwaith Strategol drafft Canol y Ddinas. Yna caiff y ddogfen ei gorffen a'i lansio. Caiff Abertawe 20:20 hefyd ei lansio gan ddechrau ei roi ar waith gyda phartneriaid.
- **Canol y Ddinas –** adolygu rôl Partneriaeth Canol y Ddinas gan ystyried BID a Fframwaith Strategol Canol y Ddinas *(FfSCDd)* erbyn mis Rhagfyr 2006. Dechrau rhoi'r prosiectau o fewn fframwaith canol y ddinas ar waith megis Cynllun Gwella Craidd Canol y Ddinas sy'n werth £3.5m.
- **Dyfodol Abertawe –** bydd yn ceisio denu mwy o bartneriaid, yn benodol o'r sector preifat, y gall weithio gyda hwy i sicrhau bod diddordeb a buddsoddiad yn Abertawe yn parhau ac yn gwella.
- ***Cynllun Gofodol Cymru* –** cydlynu mewnbwn y Cyngor i setliadau allweddol a themâu'r Glannau. Cyfrannu at themâu cludiant, gwastraff, segurdod economaidd, sgiliau a gweithlu, hamdden/diwylliant/treftadaeth/twristiaeth erbyn mis Ebrill 2007
- **Strategaethau –** gorffen a mabwysiadu'r strategaethau ar gyfer adfywio Coridor Glannau'r Tawe a Bae Abertawe erbyn mis Rhagfyr 2006
- **Gweithio mewn partneriaeth –** Arwain ar ddatblygu'r rhaglen gydgyfeiriant ar ran Abertawe
- **Busnesau –** parhau i gefnogi busnesau newydd sy'n dechrau *(196 yn 2006/07)* a 400 o fusnesau sydd eisoes yn bodoli gyda gwaith yn dilyn y cyfnod dechreuol a chefnogaeth TGCh
- **Strategaeth Twristiaeth –** Strategaeth Twristiaeth newydd yn ystod 2006
- **Addysg Fenter –** i gefnogi cyfleoedd i blant ac oedolion ddatblygu sgiliau menter bywyd go iawn.

# Cefnogi Cyflwyno Gwasanaethau

## Yr hyn rydym wedi'i wneud

- **Llythyr Blynyddol y Rheolwr Perthnasoedd** – cefnogi'n fras ymdrechion y Cyngor i wella perfformiad, cynllunio ariannol a chanlyniadau etc.
- **E-Lywodraeth** – dyfarnwyd Cam 1 y contract gan gynnwys TGCh allanol. Mae Adnodd@Abertawe ar y trywydd iawn ac mae'r gwasanaeth TGCh yn cyflawni'i dargedau gan gynnwys yr argaeledd system hollbwysig.
- **Cynllunio ariannol tymor canolig** – mae'r ymagwedd hon wedi cael ei chydnabod yn gadarnhaol gan y Rheolyddion.
- **Systemau corfforaethol** – mae'r rhain, megis Rheoli Risgiau, Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Prosiectau, bellach yn eu lle ac fe'u cydnabyddir gan Reolyddion fel arfer da.
- **Caffael** – cyflwynwyd ymagweddau newydd megis e-Arwerthiannau i wella mynediad i'r broses gaffael a Gwerth am Arian ar gyfer y Cyngor. Mae'r ymagwedd gorfforaethol adolygedig at gaffael yn symud i gyfeiriad arfer da.
- **Lliflino gwasanaethau canolog** yn barhaus. Symleiddiwyd AD, gan sicrhau arbedion sydd ar gael i'w hailfuddosoddi mewn mannau eraill.
- **Absenoldeb Salwch** – cafwyd ymdrechion cydunol ar draws y Cyngor i leihau lefelau ac arbed costau. Mae perfformiad bellach wedi curo'r targed.
- **Cynnwys gweithwyr** – amlygodd arolwg staff 2005 feysydd ar gyfer gwelliant, ond cafodd gweithgareddau megis y "Gweithdai Edrych i'r Dyfodol" dderbyniad cadarnhaol iawn o fewn y sefydliad ac yn allanol.
- **Perfformiad** – yn gyffredinol, mae 69% o fesurau perfformiad yn dangos gwelliant neu yn perfformio ar eu gorau.
- **Cyfathrebu** – mae gwaith wedi parhau i wella a diweddaru'n barhaus y wefan gyhoeddus a'r fewnrwyd fewnol. Canlyniad hyn oedd cynnydd yn nifer yr ymweliadau â'r wefan.
- **Hydwythedd** – mae hyn yn cynnwys datblygu Rheoli Risgiau, Dilyniant Busnes a Chynlluniau Sifil wrth gefn sydd wedi datblygu mewn partneriaeth â chyngor Castell-nedd Port Talbot ac fe'u gwelir fel ymagwedd arfer da gan bartneriaid allanol.

## *Yr hyn y bwriadwn ei wneud*

- **Adnodd@Abertawe –** gweithredu Adnodd@Abertawe i gyflwyno systemau a phrosesau cefnogi integredig newydd a gwireddu arbedion effeithlonrwydd.
- **Gwasanaeth@Abertawe –** datblygu cam 2 y rhaglen e-Lywodraeth er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid drwy agor Canolfan Gyswllt yn 2007.
- **Cyllid –** cefnogi holl brosiectau a gwasanaethau'r Cyngor gyda gwybodaeth a chyngor ariannol amserol a chadarn
- **Caffael –** cyflwyno gwelliannau gwerth pellach wrth gefnogi gwasanaethau'r Cyngor a'r rhaglen gyfalaf
- **Cyfreithiol –** darparu cyngor cyflym a chywir i adrannau a chefnogi adrannau cleientiaid wrth gydymffurfio â therfynau amser statudol a osodir gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- **Prosiectau Strategol –** parhau i gefnogi prosiectau strategol drwy wella arferion gwaith, cyflawni archwiliadau a gwiriadau iechyd a darparu hyfforddiant i staff perthnasol yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu –** Parhau i wella'r ochr gyfathrebu o fewn y Cyngor a thrwy ddatblygu gwefan y Cyngor a'r Fewnrwyd. Yn 2006/07, bydd strategaeth gyfathrebu gweithwyr yn parhau i wella cyfathrebu mewnol.
- **Adnoddau Dynol –** adolygu a diweddaru polisïau AD fel rhan o welliannau parhaus y gwasanaeth.
- **Perfformiad –** parhau i ddatblygu systemau rheoli perfformiad i alluogi cyflwyno Perfformiad Gorau
- **Cydraddoldeb –** datblygu ymhellach a chefnogi rhoi'r Agenda Cydraddoldeb ar waith drwy ymgynghori mewnol ac allanol.
- **Hydwythedd –** parhau i ddatblygu a rhoi ymagweddau Risgiau a Hydwythedd corfforaethol ar waith yn sail ar gyfer cyflwyno gwasanaethau. Hefyd, gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymhellach ymagweddau sifil wrth gefn i'w defnyddio yn achos argyfwng lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

# Sut i Gael Rhagor o Wybodaeth

## Y Cynllun Gwella

Mae'r Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol wedi paratoi'r ddogfen hon ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â thîm yr Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol drwy:

Anfon e-bost at **improvement@swansea.gov.uk**
Neu ffonio **01792 636852**

Gellir gweld Rhan 1 o'r Cynllun Gwella ar
**www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=155**

## Y Cynllun Cymunedol

Os hoffech wybod mwy am y Cynllun Cymunedol, yna gallwch wneud hynny ar wefan y Cyngor drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

**http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=1912**

Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r Cynllun Cymunedol, gallwch gysylltu â'r Tîm Strategaethau Cymunedol drwy:

Anfon e-bost at **communitystrategies@swansea.gov.uk**
Neu ffonio **01792 636292**

## Creu'r Cysylltiadau

Am ragor o wybodaeth ar fenter "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i'r wefan drwy glicio ar y ddolen ganlynol.

**http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/?lang=en**

## Dyfodol Abertawe

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan yn **www.abayoflife.com**

### Oeddech chi'n gwybod?

Caiff perfformiad ei fonitro'n chwarterol a chyflwynir adroddiadau i'r Cabinet. Os hoffech ganfod mwy am hyn ewch i'n gwefan dan y ddolen Cynghorwyr a Democratiaeth.

Mae gan ein gwefan straeon newyddion dyddiol i roi'r diweddaraf i chi ynghylch Abertawe, er enghraifft cynnydd prosiectau, materion cyflwyno gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau.

Rydym yn gweithredu diwylliant agored a thryloyw ac yn croesawu barn y cyhoedd wrth adolygu ein polisïau. Cyflawnir adolygiadau gan ein Byrddau Craffu sy'n cynnwys yn bennaf Aelodau Etholedig. Os hoffech ganfod mwy ynghylch beth sydd ar eu rhaglenni gwaith neu ddyddiadau ac amserau cyfarfodydd *(sy'n agored i'r cyhoedd)* cysylltwch â'n Swyddogion Craffu ar Abertawe **01792 637256,** neu ewch i'n gwefan.